# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel**

**a fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 5 Mawrth 2025

Amser: 11.00 - 12.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14861

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mabon ap Gwynfor AS<br>Russell George AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>John Griffiths AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Claire Morris (Ail Glerc)<br>Karen Williams (Dirprwy Glerc)<br>Rebekah James (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Atal iechyd gwael – gordewdra: sesiwn dystiolaeth – panel 9 – EITEM WEDI'I HANSLO

2.1 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y tîm clercio yn y broses o aildrefnu'r sesiwn dystiolaeth a drefnwyd gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol.

## 3 Atal iechyd gwael – gordewdra: sesiwn dystiolaeth – panel 10

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Ffederasiwn Bwyd a Diod a Chonsortiwm Manwerthu Cymru i lywio ei ymchwiliad i atal gordewdra.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Gyfarwyddwr Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ynghylch canfyddiadau'r Pwyllgor o ran adroddiad Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 (Saesneg yn unig).

4.1.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 4.2 Llythyr gan elusen gofal canser Tenovus ynghylch cais i gynnal ymchwiliad byr i weithrediad adroddiad y Pwyllgor, Heb lais, yn dilyn ymchwiliad i ganserau gynaecolegol (Saesneg yn unig).

4.2.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw ac eitemau 1 a 2 o’r cyfarfod ar 20 Mawrth i ystyried yr adroddiad monitro drafft diweddaraf ar amseroedd aros y GIG ac ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig.

5.1 Cytunodd y Pwyllgor â’r cynnig.

## 6 Atal iechyd gwael – gordewdra: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.